# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Care & Independence (West Wales)**

**Avon House**
**Suite 4**
**Parc Masnach Dafen**
**Llanelli**
**SA14 8NA**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

10/11/2022

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Care & Independence (West Wales)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | WD Care Ltd |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | This is the first inspection under The Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Care & Independence yn darparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain yng Ngorllewin Cymru, ac yn gweithredu yn ardal Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn, yn ogystal â'r ymateb prydlon y maent yn ei gael i unrhyw newidiadau yn eu hanghenion.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r darparwr wedi ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff gofal; fodd bynnag, i raddau helaeth, dim ond y tasgau rheoli yr effeithiwyd arnynt oherwydd hyn. Caiff galwadau eu gwneud yn brydlon ac mae'r bobl yn cael cymorth am y cyfnod o amser y cytunwyd arno. Mae'r trefniadau cyfathrebu yn dda ac os bydd y gweithwyr gofal yn rhedeg yn hwyr am reswm penodol, caiff y bobl wybod am hyn.

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio eu cynlluniau personol, a chaiff eu hanghenion gofal a chymorth eu dogfennu'n glir. Fodd bynnag, mae bylchau yn y gwaith o gofnodi'r cymorth y mae'r bobl yn ei gael ac yn y cofnodion meddyginiaeth.

Yn gyffredinol, mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ond nid yw pob un ohonynt yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol mor aml ag sy'n ofynnol. Mae rhai bylchau yn y wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cofnodion y staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn meddu ar wybodaeth dda am y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn canmol y staff gofal, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r gofalwyr, a'u bod yn cael eu cefnogi ganddynt.  Dywedodd y bobl wrthym "*The staff and the company are fantastic, they sort everything out for me*" a "*the staff are excellent, we depend on them and know we are in safe hands*." Mae'r bobl yn cael cymorth pan fydd wedi'i gynllunio fel rheol ac yn cael gwybod os bydd unrhyw staff gofal yn rhedeg yn hwyr am reswm penodol. Dywedodd un person wrthym ei fod yn gallu parhau i fyw yn ei gartref ei hun diolch i'r cymorth y mae'n ei gael gan Care and Independence.

Ni chaiff y cofnodion meddyginiaeth bob amser eu cwblhau'n glir i ddangos tystiolaeth bod y bobl wedi cael y feddyginiaeth a ragnodwyd ar eu cyfer ar yr adegau cywir. Dywedodd y rheolwr wrthym am anawsterau wrth drosglwyddo i system cofnodion electronig newydd ar gyfer meddyginiaeth ac felly, mae'r gwasanaeth yn bwriadu dychwelyd i ddefnyddio cofnodion papur er mwyn unioni'r sefyllfa. Nodwyd gennym nad yw'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r broses o reoli ac archwilio meddyginiaethau a'r broses o ddarparu gofal yn ddigonol i ddiogelu'r bobl rhag y risg o niwed.

Mae'r galwadau wedi'u cynllunio'n dda, gan roi digon o amser i'r staff gofal deithio rhwng galwadau er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu am yr amser a gynlluniwyd, sy'n cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Nodwyd gennym na chaiff yr holl wiriadau recriwtio staff eu cwblhau'n drylwyr. Gall methu â gwneud hynny effeithio ar ddiogelwch y bobl.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r trefniadau diogelu sydd ar waith yn sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn yn briodol rhag y risg o niwed. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar Ddiogelu ac maent yn hyderus o ran sut i ymateb i unrhyw bryderon yn unol â'r canllawiau cyfredol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael budd o gael cymorth gan aelod cyfarwydd o'r staff gofal, ar yr amser a gynlluniwyd fel rheol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael gwybod gan staff y swyddfa os bydd y staff gofal yn rhedeg yn hwyr. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o gwblhau eu cynlluniau personol, sy'n cynnwys lefel dda o fanylion er mwyn hysbysu'r staff gofal o'r ffordd orau o roi cymorth i'r bobl er mwyn diwallu eu hanghenion a chyflawni eu dyheadau. Mae'r cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth am hanes cymdeithasol y bobl er mwyn i'r staff gofal ddod i adnabod yr unigolion, yn ogystal â chael gwybod eu hanghenion. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw newidiadau eu nodi. Gwelsom dystiolaeth bod Cymraeg achlysurol yn cael ei defnyddio wrth lunio cynlluniau ac wrth ddarparu'r gwasanaeth.

Mae'r darparwr wedi cyflwyno system cadw cofnodion electronig a gwelsom fod bylchau yng nghofnodion rhai o'r bobl. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod tystiolaeth i ddangos bod y bobl yn cael cymorth yn unol â'u cynlluniau personol. Nid yw rhai o'r asesiadau risg ar gael i'r staff gofal yng nghartrefi'r bobl ac mae rhai o'r staff gofal yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y wybodaeth hon drwy ddefnyddio'r dechnoleg sydd ganddynt. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y darparwr systemau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fylchau heb esboniad yn siartiau meddyginiaeth electronig rhai o'r bobl, felly ni allem fod yn sicr eu bod wedi cael eu meddyginiaeth fel y cynlluniwyd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y staff gofal ddigon o amser i deithio rhwng galwadau a gwnaethant ddweud wrthym fod trefn eu diwrnodau gwaith yn dda. Mae'r darparwr wedi ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff, sy'n her i'r sector cyfan. Mae'r tîm rheoli wedi cefnogi galwadau gofal lle y bo angen, er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cymorth fel y'i cynlluniwyd. Fodd bynnag, mae hyn wedi effeithio ar rai tasgau rheoli.

Yn gyffredinol, mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr yn ymatebol iawn i unrhyw newidiadau o ran anghenion y bobl, a'i fod yn ymweld â'r bobl yn eu cartrefi yn brydlon er mwyn sicrhau bod popeth yn gweithio'n dda iddynt.

Nid yw rhai o'r cyrsiau hyfforddiant gorfodol, fel sut i roi cymorth i'r bobl â'u symudedd, bob amser wedi cael eu cwblhau cyn i'r staff gofal gyflawni'r tasgau hyn. Cyfyngwyd ar yr hyfforddiant hwn i ryw raddau oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ond bellach mae ar gael yn helaeth, a nodwyd bod y darparwr wedi trefnu i'r hyfforddiant hwn fynd rhagddo. Nid yw'r staff gofal wedi cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd gyda'u rheolwr llinell mor aml ag sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn cael cyfle i fyfyrio ar eu hymarfer ac i ofyn am arweiniad lle y bo angen. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gwelsom fod bylchau yng nghofnodion personél y staff gofal. Ni chedwir pob darn o wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys hanes cyflogaeth llawn y staff, geirdaon ysgrifenedig a phrawf adnabod. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Nid yw pob cofnod personél ar gyfer y staff gofal yn cynnwys y wybodaeth ofynnol | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un mor aml ag sy'n ofynnol gan y rheoliadau | Newydd |
| 58 | Nid oedd y cofnodion meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir er mwyn dangos tystiolaeth o bwy sydd wedi rhoi meddyginiaeth a ph'un a roddwyd meddyginiaeth y bobl iddynt ar yr adegau cywir | Newydd |
| 59 | Ni chaiff y cofnodion gofal eu cadw'n gywir er mwyn dangos tystiolaeth o'r holl ofal a chymorth a ddarperir. Nid oedd pob asesiad risg ar gael er mwyn hysbysu'r staff gofal wrth iddynt weithio yng nghartrefi'r bobl | Newydd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi